Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Adroddiad gan y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Deddf Gallu Meddyliol 2005, Rheoliadau Eiriolaeth Gallu Meddyliol Annibynnol a Deddf Gallu Meddyliol 2005 (Corff Priodol) a Rheoliadau Ymchwil (Colli Gallu yn ystod Prosiect Ymchwil) (Cymru) 2007

1. Roedd y Pwyllgor wedi nodi eu bod am graffu ar y rheoliadau hyn a chawsant eu cyflwyno i'r Pwyllgor ar gyfer ei gyfarfod ar 13 Rhagfyr 06. Cawsant eu hystyried yn unol â'r protocol ar gyfer delio ag is-ddeddfwriaeth y cytunodd y Pwyllgor arno ar 11 Mehefin 2003, lle mae'r Aelodau'n rhoi gwybod ymlaen llaw am unrhyw gwestiynau neu welliannau sydd ganddynt.

2. Ni chynigiodd yr Aelodau unrhyw welliannau, ond cododd Helen Mary Jones AC bwynt i'w egluro yn ymwneud ag Adran 41. Gofynnodd a oedd y Llywodraeth am ddefnyddio'r ddarpariaeth i ofalu bod eiriolaeth annibynnol ar gael i'r unigolion hynny sydd â theulu neu ofalwyr. Gofynnodd hefyd a fyddai cod ymarfer penodol ar gael, ac a fyddai'n caniatáu i gleifion gael gwasanaethau yn eu dewis iaith.

3. Ymatebodd y Gweinidog drwy ddweud y byddai darpariaeth i gynnig eiriolwr annibynnol mewn amgylchiadau lle y byddai cleifion mewn perygl o ddioddef trais neu o gael ei gam-drin. Gweithiwr proffesiynol ar y Bwrdd Iechyd Lleol neu'r awdurdod lleol fyddai'n penderfynu ar hyn. Cadarnhaodd y Gweinidog y byddai cod ymarfer ar gael, ac y byddai'n caniatáu i'r claf gael gwasanaeth yn ei ddewis iaith.

4. Roedd y Pwyllgor yn fodlon ar y rheoliadau drafft.

Rhodri Glyn Thomas AC
Cadeirydd
Rhagfyr 2006